# Atebion a roddwyd i Aelodau ar 22 Hydref 2008

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig

## Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ymdrechion Llywodraeth Cynulliad Cymru i gefnogi adfer y cyswllt fferi rhwng Abertawe a Cork? (WAQ52628)

**Y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth (Ieuan Wyn Jones):** Mae fy swyddogion yn parhau i weithio'n agos gyda'r awdurdod porthladd sy'n gwneud pob ymdrech i sicrhau ateb masnachol i adfer y cysylltiad fferi rhwng Abertawe a Cork.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarpariaeth gwasanaethau cymdeithasol yng Ngwynedd yng ngoleuni'r adroddiad diweddar gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru? (WAQ52634)

**Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol (Gwenda Thomas):** Canfu'r Cydadolygiad fod gan Gyngor Gwynedd wasanaethau anghyson ac nad oedd mewn sefyllfa dda i gynnal a gwella gwasanaethau. Mae'r rhan fwyaf o bobl yn cael help sy'n ddiogel a gofalgar ond nid yw nifer sylweddol yn cael gwasanaethau sy'n canolbwyntio digon ar alluogi'r annibyniaeth a rheolaeth fwyaf.

Nododd yr adroddiad nad oedd ystod eang o wasanaethau wedi'u moderneiddio ar waith eto a bod bylchau gyda phroblemau wrth sicrhau hyblygrwydd, dewis a chwmpas daearyddol cyson.

Gwelwyd bod ailstrwythuro wedi tynnu egni rheolwyr oddi wrth wella gwasanaethau ac ni wnaed cymaint o gynnydd ag a wnaed gan lawer o awdurdodau eraill yng Nghymru.

Nodwyd fod angen i aelodau a'r swyddogion corfforaethol lywio'r gwaith strategol o ddatblygu a gweithredu cynlluniau. Mae'r cyngor wrthi'n paratoi cynllun gweithredu i ddangos sut y byddant yn gwneud y gwelliannau angenrheidiol. Gwn fod Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn rhoi rhaglen fonitro gadarn ar waith yn ystod y flwyddyn nesaf er mwyn sicrhau y bydd Cyngor Gwynedd yn mynd i'r afael â'r agenda heriol hon yn effeithiol.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig

**Mike German (Dwyrain De Cymru):** Sawl hectar o Safleoedd Coetir Hynafol a Blannwyd ar ystâd Coetir y Cynulliad Cenedlaethol y bwriedir eu torri a'u clirio dros y tair blynedd nesaf, yn unol â'r Cynllun Dylunio Coedwigoedd? (WAQ52604)

**Y Gweinidog dros Faterion Gwledig (Elin Jones):**

| Blwyddyn ariannol yn dod i ben 31 Mawrth | Cyfanswm yr Arwynebedd (hectarau) |
|---|---:|
| 2009 | 383 |
| 2010 | 62 |
| 2011 | 261 |
| **Cyfanswm** | **705** |

**Ffynhonnell: Cynlluniau Dylunio Fforest Y Comisiwn Coedwigaeth**

Mae gwaith ymchwil diweddar yn awgrymu mai'r opsiwn gorau mewn rhai achosion yw clirgwympo ac yna ailblannu neu ganiatáu i hen safle adfywio yn naturiol i ail-greu'r coetir brodorol a fyddai wedi bodoli'n flaenorol. Mae clirgwympo Cegid y Gorllewin yn parhau hefyd, yn unol ag arfer gorau, oherwydd bydd rhywogaeth mor doreithiog yn tagu'r broses o adfywio unrhyw goetir brodorol.

**Mike German (Dwyrain De Cymru):** Sawl hectar o Safleoedd Coetir Hynafol a Blannwyd ar ystâd Coetir y Cynulliad Cenedlaethol sydd wedi cael eu hailblannu â choed conwydd dros y tair blynedd diwethaf? (WAQ52605)

**Elin Jones:**

| Blwyddyn ariannol yn dod i ben 31 Mawrth | Cyfanswm yr Arwynebedd (hectarau) |
|---|---:|
| 2006 | 23 |
| 2007 | 12 |
| 2008 | 39 |
| **Cyfanswm** | **74** |

**Ffynhonnell: Cronfa ddata Is-adran y Comisiwn Coedwigaeth**

Mae nifer fach o safleoedd lle mai'r rhywogaeth coniffer yw'r rhywogaeth orau ar gyfer y safle.

**Mike German (Dwyrain De Cymru):** Sawl hectar o Safleoedd Coetir Hynafol a Blannwyd ar ystâd Coetir y Cynulliad Cenedlaethol y bwriedir eu hailblannu â choed conwydd dros y tair blynedd nesaf, yn unol â'r Cynllun Dylunio Coedwigoedd? (WAQ52606)

**Elin Jones:**

| Blwyddyn Ariannol yn dod i ben 31 Mawrth | Arwynebedd i'w blannu (hectarau) | Arwynebedd i'w adyfwio'n naturiol (hectarau) |
|---|---:|---:|
| 2009 | 0.0 | 0.1 |
| 2010 | 0.0 | 0 |
| 2011 | 1.8 | 25.4 |
| **Cyfanswm** | **1.8** | **25.6** |

**Ffynhonnell: Cynlluniau Dylunio Fforest Y Comisiwn Coedwigaeth**

Mae nifer fach o safleoedd lle mai'r rhywogaeth coniffer yw'r rhywogaeth orau ar gyfer y safle.

**Mike German (Dwyrain De Cymru):** Sawl hectar o Safleoedd Coetir Hynafol a Blannwyd ar ystâd Coetir y Cynulliad Cenedlaethol sydd wedi cael eu torri a'u clirio dros y tair blynedd diwethaf? (WAQ52607)

**Elin Jones:** Nid ydym yn casglu'r wybodaeth hon fel arfer ac mae gwybodaeth o'r fath yn anodd iawn ei chael o gofnodion hanesyddol o'n dull rheoli, cronfa ddata'r is-adran, heb fewnbwn adnoddau mawr.

Gallwn amcangyfrif yr arwynebedd o glirgwympo ar safleoedd Planhigfeydd ar Safleoedd Coetiroedd Hynafol fel a ganlyn: Caiff bron pob un o'r safleoedd a glirgwympir eu hail-stocio. Y prif resymau dros beidio ag ail-stocio fyddai rhesymau amgylcheddol (e.e. parthau torlannol).

**Cyfanswm Arwynebedd y safleoedd Planhigfeydd ar Safleoedd Coetiroedd Hynafol a gaiff eu ail-stocio**

| Blwyddyn ariannol yn dod i ben 31[ain] Mawrth | Cyfanswm yr Ardwynebedd a gaiff ei ail-stocio (hectarau) |
|---|---:|
| 2006 | 145 |
| 2007 | 73 |
| 2008 | 115 |
| **Cyfanswm** | **334** |

**Ffynhonnell: Cronfa ddata Is-adran y Comisiwn Coedwigaeth**

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn):** Sawl taliad fferm organig sy'n disgwyl i gael eu talu ar hyn o bryd? (WAQ52609)

**Elin Jones:** O'r ceisiadau sydd wedi'u dilysu, mae 297 o daliadau Cynllun Ffermio Organig yn aros i gael eu talu.

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn):** Sawl taliad Tir Gofal sy'n disgwyl i gael eu talu ar hyn o bryd? (WAQ52610)

**Elin Jones:** Mae 435 o daliadau Tir Gofal heb eu dilysu ar hyn o bryd ac yn aros i gael eu talu.

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn):** Sawl taliad Tir Cynnal sy'n disgwyl i gael eu talu ar hyn o bryd? (WAQ52611)

**Elin Jones:** Mae 22 o daliadau Tir Cynnal yn aros i gael eu talu ar hyn o bryd.

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn):** Faint o le i gamgymeriadau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei dderbyn wrth ddarllen tagiau adnabod electronig pan wneir hapwiriadau ar hawliadau am gymhorthdal? (WAQ52612)

**Elin Jones:** Ni chaiff tagiau adnabod electronig eu hystyried yn ddulliau adnabod swyddogol ac felly ni chânt eu darllen ar hyn o bryd wrth gynnal gwiriadau trawsgydymffurfio o dan Gynllun y Taliad Sengl (SPS).

Yn barod ar gyfer 2010, a chyflwyniad disgwyliedig dulliau adnabod electronig ar gyfer defaid, mae Arolygiaeth Wledig Cymru (RIW), ynghyd â chyrff arolygu eraill yn y DU, yn ystyried sut y gellir defnyddio'r dechnoleg wrth ymgymryd ag archwiliadau statudol.

Mae Rheoliad 21/2004 y Cyngor eisoes yn ei gwneud yn ofynnol i gofnodion fferm gael eu cynnal ar gyfer pob dafad a gafr, a'r rheoliadau ychwanegol, sy'n dechrau yn 2010 yw y bydd angen cadw cofnodion unigol ar gyfer defaid a geifr a enir ar ôl 31 Rhagfyr 2009 (yn amodol ar unrhyw benderfyniad i fabwysiadu'r rhan ddirymiad lladd).

Mae'n bwysig amlygu nad oes gorfodaeth i gadw cofnodion yn electronig nac i geidwaid ddefnyddio dyfeisiau electronig wrth gynnal y cofnodion hynny. Os byddai'n well ganddynt, gall ceidwaid barhau i gadw cofnodion â llaw er y cydnabyddir y gallai ceidwaid preiddiau mawr ystyried y byddai symud i gadw cofnodion yn electronig yn llai beichus.

Rwyf yn gweithio gyda'r diwydiant a chyrff gorfodi i nodi'r opsiynau gweithredu mwyaf addas. Gwneir penderfyniadau ar y rheolau newydd y flwyddyn nesaf ar ôl ymgynghoriad cyhoeddus.

**Karen Sinclair (De Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gefnogaeth ariannol ddiweddar Llywodraeth y Cynulliad i brosiectau'n ymwneud â Materion Gwledig yn etholaeth De Clwyd? (WAQ52614)

**Elin Jones:** Mae'r cymorth ariannu diweddar gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r cymorth a ddisgwylir ganddi sydd ar gael ar gyfer Materion Gwledig yn etholaeth De Clwyd fel a ganlyn:

**Echelau 3 a 4 o Gynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007-13**

Mae Echelau 3 a 4 yn cefnogi cymunedau gwledig drwy ariannu gweithgareddau i arallgyfeirio'r economi wledig a gwella ansawdd bywyd mewn cymunedau gwledig. Cyfanswm gwerthoedd ymrwymiad ar gyfer cyfnod cyntaf y Cynllun Busnes (20fed Mehefin 2008 i 28ain Chwefror 2011) yw:

| | |
|---|---|
| Sir Ddinbych | £4,267,038.00 (13 o brosiectau) |
| Sir y Fflint | £3,057,595.20 (12 o brosiectau) |
| Wrecsam | £3,654,527.63 (28 o brosiectau) |

**Rhaglen Siopau Gwledig**

O dan y Rhaglen Siopau Gwledig mae cyllid ar gael i Fanwerthwyr Gwledig Hanfodol gael hyd at 2 ddiwrnod o gymorth arbenigol a chael grant o hyd at £5,000 ar gyfradd grant o 50:50. Yn ystod y 18 mis diwethaf mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cefnogi dau fanwerthwyr yn Sir Ddinbych ac un yn Sir y Fflint. Cyfanswm y gyllideb ar gyfer y rhaglen Siopau Gwledig yw £80,000 y flwyddyn.

**Grantiau eraill**

Yn ogystal, cafodd busnes yng Nghorwen Grant Gwella Fferm o £19,462.97 ym mis Ebrill 2007 a chafodd prosiect popty ym Minera grant prosesu a marchnata o £624,445 ym mis Ebrill 2008.

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn):** Yn union faint o ffermwyr yng Nghymru sydd â thystysgrif cymhwysedd ar gyfer cludo da byw, er mwyn cydymffurfio â Rheoliad Cyngor (CE) rhif 1/2005 a ddaeth i rym ym mis Ionawr 2005? (WAQ52627)

**Elin Jones:** Nid oes gan y cyrff enwebedig sy'n gyfrifol am roi'r hyfforddiant a'r asesiadau yn y DU system debyg ar waith i wahaniaethu rhwng ffermwyr a chludwyr da byw eraill sydd wedi ennill tystysgrif cymhwysedd. Mae ffermwyr sy'n cludo eu hanifeiliaid eu hunain hyd at 65km (tua 40 milltir) y tu allan i gwmpas y rheoliadau ac nid oes angen tystysgrif cymhwysedd arnynt.

Nid yw’n bosibl rhoi ffigwr o’r fath o’r wybodaeth sydd ar gael, fodd bynnag, mae’r cyrff hyfforddi enwebedig wedi nodi bod tua 10,000 o gludwyr (yn cynnwys ffermwyr) wedi ennill tystysgrif cymhwysedd drwy ddarparwyr hyfforddiant yng Nghymru.